

Cyngor Cymuned Llandwrog

Canllaw

**Delio a Chais o dan y Ddeddf
Rhyddid Gwybodaeth**

Gwybodaeth am y ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r hawl i gael gwybodaeth gan gyrrff cyhoeddus mewn dwy ffordd:

- Trwy'r wybodaeth a gyhoeddir gan y Cyngor ar y wefan, neu
- Trwy wneud cais penodol am wybodaeth (gweler manylion isod),

Gwneud cais penodol am wybodaeth

Os nad yw'r wybodaeth ar wefan y Cyngor gellir gwneud cais drwy ysgrifennu at y **Rheolwr Gweinyddol a Chyllid** yn unig, gan roi enw a chyfeiriad, a dweud pa wybodaeth sydd ei angen.

- **E-bost:** gwybodaeth@llandwrog.org
- **Cyfeiriad:** **Bryn Meurig, Carmel, Caernarfon, Gwynedd LL54 7DS**

Beth sy'n digwydd wedyn?

Bydd y Cyngor, drwy'r Rheolwr, yn cydnabod y cais cyn gynted ag y bo modd. Os nad ydym yn sicr pa wybodaeth yn union sydd gennych dan sylw, fe fydd y Rheolwr yn cysylltu efo'r ymholydd i drafod.

Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd?

Mae gan y Cyngor hyd at 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad derbyn i ymateb. Os oes angen i'r Cyngor gael eglurhad pellach, ni fydd yr 20 diwrnod yn cychwyn nes cadarnhau yn union pa wybodaeth sydd ei angen.

Os oes angen ymestyn y cyfnod (er mwyn ystyried rhai eithriadau), fe roddir gwybod i'r ymholydd a hysbysu o'r dyddiad ymateb diwygiedig.

Oes yna unrhyw reswm pam na chaiff gwybodaeth ei ddarparu?

Nid oes raid i'r Cyngor ymateb i geisiadau niferus neu flinderus neu rai sydd y tu hwnt i'r trothwy cost (wele isod).

Gall y Cyngor hefyd wrthod datgelu gwybodaeth os yw un o'r eithriadau a geir o dan y Ddeddf yn berthnasol. Os yw cais yn cael ei wrthod, bydd esboniad o pa eithriad sydd wedi ei ddefnyddio a phaham.

Ffurf y wybodaeth

Os oes gofyn am gael y wybodaeth mewn ffurf arbennig (e.e. copi caled, ar dâp, Braille), bydd y Cyngor yn ceisio ymateb i'ch cais os yw hynny'n rhesymol ymarferol.

Codi ffi

Mae mwyafrif y ceisiadau yn rhad ac am ddim.

Fodd bynnag, os yw'n debygol o gymryd mwy na 2.5 diwrnod i ganfod, didoli a golygu dogfennau er mwyn ymateb i'ch cais (sef cost o £450 wedi ei gyfrifo ar £25 yr awr) yna nid oes raid i'r Cyngor ateb.

Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyngor yn cysylltu i drafod y cais ac efallai yn gofyn iddo gael addasu trwy, e.e. ofyn am lai o wybodaeth. Bwriad hyn yw ceisio dod a'r cais o dan y trothwy cost. Os nad oes modd gwneud hyn yna mae'n bosib na fydd ateb i'r cais.

O ran ceisiadau sy'n costio llai na £450, ni fydd y Cyngor yn codi tâl a bydd costau postio/argraffu a.y.y.b hefyd yn rhad ac am ddim os ydynt yn llai na £10.

Anfodlonrwydd efo'r ateb

Os nad yw'r person sy'n gwneud y cais yn fodlon gyda'r ateb yna dylid cysylltu efo'r Cyngor, a bydd yn cynnal adolygiad mewnol trwy ailystyried y cais, ac naill ai'n cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, yn ei wyrdroi neu yn ei wyrdroi'n rhannol.

Os oes anfodlonrwydd gyda'r ymateb yn dilyn hynny, mae hawl i ofyn am adolygiad allanol trwy gysylltu gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd un o swyddogion y Comisiynydd wedyn yn ymdrin â'r adolygiad ar ran yr ymholydd.

Eithriadau

Gellir gweld unrhyw wybodaeth gan y Cyngor, ond fe geir eithriadau ar gyfer gwybodaeth a ystyrir yn gyfrinachol.